Adroddiad ar

Ysgol Llechryd

Llechryd
Aberteifi
SA43 2NL

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llechryd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llechryd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 44 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 44 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 30% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 13.64% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 22/06/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 8/05/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/11/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llechryd yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn trin ei gilydd â gofal a charedigrwydd. Mae'r pennaeth wedi sefydlu arweinyddiaeth gadarn ac yn cynnig cyfeiriad clir i'r ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel iawn o'i hun ac eraill. Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth, llywodraethwyr a'r uwch arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn dda.

Mae staff yn darparu amgylchedd dysgu i ysgogi disgyblion yn bwrpasol, gan gynnig cymorth a chefnogaeth werthfawr iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn dangos balchder yn eu gwaith. Drwy ganolbwyntio ar yr ardal leol, mae athrawon yn darparu profiadau dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r profiadau hyn yn galluogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu medrau amrywiol yn gyson. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel o'r hyn maent yn ei gyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn barod i fwynhau ac ymgolli yn eu dysgu. Er hyn, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sy'n aml yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae gan arweinwyr a staff berthynas hynod gynhyrchiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Maent yn cefnogi'r rhieni yn sensitif ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymweld â'r ysgol ac ymgysylltu â dysgu eu plant yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm

A2. Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu ofalgar sy'n cynnal lles, darparu cymorth ac arweiniad cadarn i'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinyddiaeth angerddol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn meithrin diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Gyda chefnogaeth staff ymroddgar, mae'r pennaeth yn arddel diwylliant cadarnhaol sy'n ymgorffori egwyddorion arwyddair yr ysgol yn dda, sef 'O'r fesen fach i'r gangen uchaf, anelwn am ragoriaeth'.

Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei sefydlu yn yr ysgol, ac mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo bod y disgyblion yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol yn llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddwysáu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o grefyddau, moesau ac arferion mewn diwylliannau gwahanol mewn sesiynau cyd-addoli, gweithgareddau dosbarth a thrwy wahodd ymwelwyr i'r ysgol.

Mae natur ofalgar y ddarpariaeth yn hyrwyddo ymddygiad da ymysg disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am a pharchu ei gilydd. Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais â'i gilydd, staff ac ymwelwyr ac yn cefnogi'u cyfoedion yn dda. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion y rhai ieuengaf ar y buarth, gan sicrhau bod pawb yn cyd-chwarae'n ddedwydd yn ystod amseroedd egwyl.

Mae'r ysgol wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso cynhwysfawr a chadarn ar gyfer monitro a gwella'r ddarpariaeth, a chynnydd a chyflawniad disgyblion. Maent yn casglu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithlon i nodi'r meysydd i'w gwella. O ganlyniad, mae blaenoriaethau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar ddatblygu medrau a chodi safonau disgyblion.

Mae arweinwyr yn cysylltu dysgu proffesiynol â blaenoriaethau'r ysgol a rhai cenedlaethol, ac anghenion unigol staff, yn werthfawr. Mae arweinwyr yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth, ac o ganlyniad, mae staff yn datblygu eu dulliau addysgu i fod yn fwy cyson ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae staff wedi canolbwyntio ar gryfhau'r ddarpariaeth darllen yn y ddwy iaith er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae'r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a mwynhad disgyblion at ddarllen ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 yn dangos dealltwriaeth dda o stori leol ac yn trafod ei chynnwys yn hyderus.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio iaith raenus yn gyson er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu dysgu. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn ymateb yn gynyddol hyderus i gyfarwyddiadau a chwestiynau gan ddefnyddio ystod

berthnasol o eirfa a chystrawennau wrth gynnig syniadau. Mae’r disgyblion hynaf yn gwrando’n dda ar oedolion ac ar gyfraniadau eu cyfoedion.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn gyfarwydd â phwrpas a chynnwys llyfrau. Maent yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn dda ac mae llawer yn darllen yn hyderus ar goedd ac wrth drafod storïau cyfarwydd. Mae’r disgyblion hŷn yn darllen ystod dda o destunau gan ddangos diddordeb mewn llyfrau gan drafod y cynnwys yn aeddfed, fel wrth ddisgrifio teimladau ffigwr hanesyddol wrth iddi helpu eraill mewn rhyfel.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm pwrpasol sydd wedi’i seilio’n gadarn ym milltir sgwâr y disgyblion. Trwy hyn, maent yn cydweithio’n agos â rhieni ac aelodau’r gymuned er mwyn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o’u cynefin a’u treftadaeth. Er enghraifft, mae staff wedi cyflwyno ‘Prosiect Llais yr Afon’ er mwyn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu’u hymwybyddiaeth o fyd natur yn ogystal â hanes a daearyddiaeth yr ardal. Yn ogystal, mae disgyblion yn cael cyfle i berfformio drama o’r prosiect i gynulleidfa sy’n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau creadigol.

Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn maent eisiau ei ddysgu o fewn eu themâu tymhorol. Mae hyn yn meithrin diddordeb a’u hagweddau cadarnhaol at eu gweithgareddau, ac yn eu hannog i gymryd perchnogaeth dros eu dysgu. Mae’r profiadau hyn yn galluogi llawer o’r disgyblion i ddatblygu eu medrau amrywiol yn gyson. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro’n darparu cyfleoedd digon bwriadus i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy'n adeiladu'n dda ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn gosod disgwyliadau uchel o'r hyn maent yn ei gyflawni.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn barod i fwynhau ac ymgolli yn eu dysgu. Er hyn, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu sy’n aml yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae disgyblion a’u rhieni yn croesawu’r gefnogaeth gynhwysfawr y mae staff yn ei darparu. Maent yn teimlo bod staff yn gwrando ar unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn ymateb yn amserol, lle bo’n briodol. Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol a threfnus ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn gweithio’n gynhyrchiol gyda phartneriaethau allanol, gan weithredu ar arweiniad a chyngor arbenigol yn fedrus. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd llawer o’r disgyblion ag ADY a’r rhai sy’n cael eu heffeithio gan dlodi ac anfantais.

Mae’r pennaeth yn cyfathrebu’n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau’r ysgol yn amserol. Gwneir ymdrech sylweddol i gaffael barn rhieni am weithgarwch yr ysgol ac mae sicrhau perthynas waith gynhyrchiol â rhieni

yn rhan greiddiol o'i llwyddiant. Er enghraifft, darparwyd cyfle i rieni gael mewnbwn i brosesau'r ysgol i ddatblygu gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion i'r ysgol.

Mae llywodraethwyr yn darparu arweiniad cadarn a rhagweithiol i'r ysgol, sy'n cynnig cymorth a her briodol. Trwy sgwrsio â'r disgyblion a'r staff yn yr amgylchedd dysgu a chael adroddiadau gan y pennaeth, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o safonau'r disgyblion a darpariaeth yr ysgol. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ddarbodus.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a)  mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  15/01/2026